**Leighton Andrews AC/AM**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg & Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Children, Education & Lifelong Learning**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LA/00131/11
Darren Millar AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Ionawr 2011

Annwyl Darren,

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS (3) – 04-10**

**YMATEB I ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR FUDDSODDI CYFALAF MEWN YSGOLION**

Mae'n bleser gennyf amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod a fydd yn cael ei osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet hoffwn ddiolch i chi, y cyn-Gadeirydd Jonathan Morgan AC, a'r Pwyllgor am y modd gofalus ac ystyriol y gwnaethoch chi gyflawni'r ymchwiliad a chynhyrchu'r adroddiad.

Yn gywir

**Leighton Andrews AC**
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar Fuddsoddi Cyfalaf mewn Ysgolion**

**Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r saith argymhelliad yn yr adroddiad. Rydym yn derbyn pob argymhelliad.**

**1. Argymhelliad**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi sicrwydd y bydd y gwaith o werthuso prosiect ar ôl symud i mewn i adeilad yn ymwneud yn uniongyrchol â'r amcanion a bennir ar ddechrau pob prosiect buddsoddi cyfalaf.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Un o ffrydiau gwaith allweddol rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yw datblygiad fframwaith effeithiol sy'n gwerthuso prosiect ar ôl symud i mewn i adeilad. Y nod yw y bydd datblygiad y fframwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr 2011. Yn barod ar gyfer y prosiectau cyntaf sy'n deillio o raglenni strategol yr Awdurdodau, bydd Prosiectau Dros Dro Ysgolion yr 21ain Ganrif yn y lle cyntaf yn treialu'r fframwaith gwerthuso ar ôl symud i mewn.

Bydd ceisiadau am gyllid cyfalaf oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu cyflwyno drwy achosion busnes gan ddefnyddio'r Model Pum Achos. Y Model Pum Achos yw'r safon a argymhellir gan Drysorlys EM ar gyfer paratoi achosion busnes o gam y Rhaglen Amlinellol Strategol drwyddo i'r cam Achos Busnes Llawn. Ar bob cam datblygiad yr achos busnes gwneir y pum achos canlynol:

1. Achos Strategol (y ddadl dros newid);
2. Achos Economaidd (optimeiddio'r gwerth am arian);
3. Achos Masnachol (hyfywedd masnachol);
4. Achos Ariannol (yn fforddiadwy yn ariannol); a
5. Achos Rheoli (cyflenwi'r prosiectau).

Bydd yr holl amcanion buddsoddi a fanylir yn ystod cam yr achos busnes llawn yn rhan greiddiol o'r gwerthusiad ar ôl symud i mewn.

**2. Argymhelliad**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi dyddiad ar gyfer darparu'r offer, yr arweiniad a'r strategaethau a fydd yn sail i'r diffiniad lefel uchel o adeilad sy'n addas i'r diben. Rydym am gael sicrwydd y bydd y Rhaglenni Amlinellol Strategol yn cael eu mesur yn erbyn y safonau manwl sydd wrth wraidd diffiniad lefel uchel Llywodraeth Cymru o adeilad sy'n addas i'r diben.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Sefydlwyd diffiniad lefel uchel ar gyfer rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif. Roedd gofyn i awdurdodau lleol ddarparu trosolwg o'r strategaethau

angenrheidiol i wella ysgolion a sicrhau canlyniadau i blant a phobl ifanc yn eu Rhaglenni Amlinellol Strategol. Cyflwynodd pob un o'r 22 awdurdod lleol y cynlluniau helaeth hyn erbyn y dyddiad penodedig. Caiff pob Rhaglen Amlinellol Strategol ei hasesu yn erbyn y pum amcan buddsoddi lefel uchel. Cwblheir asesiad o'r Rhaglenni Amlinellol Strategol erbyn Gorffennaf 2011. Bydd angen cyfnod o saith mis er mwyn sicrhau bod y rhaglenni wedi cael eu hasesu'n gadarn ac yn gyson a bod rhaglen pob awdurdod lleol yn gydnaws â'u strategaethau ar gyfer addysg.

Ar ôl cael cymeradwyaeth o'r Rhaglenni Amlinellol Strategol bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno achosion busnes amlinellol a llawn. Gwneir yr asesiad yn erbyn y safonau manwl, sy'n ategu diffiniad lefel uchel y rhaglen, yn ystod y camau achos busnes amlinellol a llawn.

Bydd yr offer, yr arweiniad a'r strategaethau a fydd yn sail i'r diffiniad lefel uchel yn eu lle erbyn Rhagfyr 2011 ar ôl cwblhau'r asesiad o'r Rhaglenni Amlinellol Strategol ac yn barod ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi cael caniatâd i ddatblygu eu rhaglenni buddsoddi yn y cyfnod cyntaf i'r cam Achos Busnes Amlinellol. Yn barod ar gyfer y prosiectau cyntaf a ddaw o raglenni strategol yr Awdurdodau, bydd Prosiectau Dros Ysgolion yr 21ain Ganrif yn y lle cyntaf yn treialu'r safonau manwl.

**3. Argymhelliad**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pennu'r gost o sicrhau bod ysgolion ym mhob awdurdod lleol yn cyrraedd y safon "addas i'r diben" y cytunwyd arno.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Bydd y Rhaglenni Amlinellol Strategol yn darparu amcangyfrif o'r gost o ddarparu rhaglen sy'n bodloni diffiniad lefel uchel y rhaglen. Cyflwynwyd y Rhaglenni Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer eu hasesu erbyn 10 Rhagfyr 2010. Bydd yr asesiad o'r rhaglenni amlinellol hyn yn gyflawn erbyn diwedd Gorffennaf 2011. Caiff crynodeb o ganlyniadau'r asesiad hwn ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

**4. Argymhelliad**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi:*

- *yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer sicrhau bod ysgolion ym mhob awdurdod lleol yn cyrraedd y safon "addas i'r diben" y cytunwyd arno; a*
- *cyfraniad disgwyliedig Llywodraeth Cymru at y gost o gyrraedd y safon hon*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Ar ôl cwblhau'r asesiad o'r Rhaglenni Amlinellol Strategol bydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru raglen amlinellol o gynlluniau buddsoddi pob awdurdod lleol. Cyflwynir adroddiad o hyn i'r Pwyllgor ac yn ehangach ym mis Gorffennaf 2011.

Cyflwynir y rhaglen yn y lle cyntaf mewn cyfres o bedwar cyfnod. Bydd pob cyfnod yn dair blynedd o hyd ac felly'n gydnaws â chylch cyllideb tair blynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd angen i gyfraniad disgwyliedig pob cyfnod adlewyrchu'r gyllideb cyfalaf sydd ar gael ar yr adeg honno. Mae cyfraniad priodol cyfnod cyntaf y buddsoddiad yn y rhaglen yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Fwrdd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**5. Argymhelliad**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad clir o ran polisi ar leoedd gwag i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu'n gydlynol ledled Cymru i ddelio â'r broblem.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion (gan gynnwys y mater o leoedd gwag) ac yn benodol ar y dull o asesu capasiti pob ysgol a gynhelir yng Nghymru; gan gynnwys mesur lleoedd gwag. Mae rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif hefyd wedi gwella'r canllawiau sydd ar gael gyda chanllaw ymarferol i reoli'r gwaith o ad-drefnu ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2010.

Bydd yr asesiad o ad-drefnu ysgolion a chapasiti ysgolion yn rhan o asesiad y Rhaglenni Amlinellol Strategol. Cynhelir adolygiad wedyn o'r canllawiau cyfredol os yw'r Rhaglenni Amlinellol Strategol yn methu â rhoi sylw i ad-drefnu ysgolion ac unrhyw faterion cyfluniad/capasiti sy'n gysylltiedig â lleoedd mewn ysgolion ym mis Medi 2011.

**6. Argymhelliad**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â CLlLC, yn annog awdurdodau lleol i gydweithio i feithrin eu gallu i gyflwyno'r rhaglen yn yr hirdymor gan leihau'r angen am gymorth gan Lywodraeth Cymru yn ganolog.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Ar ôl cwblhau'r asesiad o'r Rhaglenni Amlinellol Strategol, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio annog cydweithio rhwng awdurdodau lleol i sicrhau bod y gallu a'r capasiti angenrheidiol yn eu lle i gyflwyno rhaglen gyfalaf strategol gan leihau'r angen am gymorth canolog. Er enghraifft, gwneir hyn drwy ddefnyddio fframweithiau cydweithredol ar gyfer caffael a chydweithredu rhwng awdurdodau wrth iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau proffesiynol a thechnegol sy'n ofynnol ar gyfer rhaglenni cyflenwi cyfalaf.

**7. Argymhelliad**

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys ystyried gwaith cynnal a chadw dros gylch oes fel un o rag-amodau ariannu ac na fydd yr un cais yn cael ei gymeradwyo heb wneud hynny.*

**Ymateb: Derbyniwyd.**

Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol roi manylion eu cynigion am waith cynnal a chadw dros gylch oes drwy broses cyflwyno achos busnes y rhaglen; o'u Rhaglenni Amlinellol Strategol cychwynnol drwyddo i'w Hachos Busnes Llawn.